

Ionawr 2019



Ceir fersiwn ryngweithiol o'r ddogfen hon,
gweler [https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/
gwariant-gig-cymru-ar-staff-asiantaeth](https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/gwariant-gig-cymru-ar-staff-asiantaeth)

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



•Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys Nicholas Raynor, James Ralph, Nigel Blewitt a Huw Lloyd Jones dan gyfarwyddyd Mike Usher.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

| | | |
|---|--|-----------|
| | Cyflwyniad | 5 |
| 1 | Mae gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf | 8 |
| | Diffinio gwariant ar staff asiantaeth | 9 |
| | Gwariant ar staff asiantaeth | 10 |
| | Dosbarthiad y gwariant ar staff asiantaeth | 13 |
| | Y gwariant ar staff asiantaeth fel canran o gyfanswm y gwariant ar gyflogau | 14 |
| | Y twf mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant ar gyflogau a niferoedd y staff | 16 |
| | Ffactorau sydd wedi cyfrannu at y cynnydd yn y gwariant ar staff asiantaeth | 18 |
| 2 | Mae tua 80% o'r gwariant ar staff asiantaeth yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag, ond mae'r wybodaeth am nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir yn gyfyngedig | 19 |
| | Y rhesymau dros ddefnyddio staff asiantaeth yn 2018-19 | 20 |
| | Argaeledd gwybodaeth am y staff asiantaeth a ddefnyddir | 21 |
| 3 | Mae GIG Cymru yn ceisio lleihau'r galw am staff asiantaeth a rheoli'r pris y mae'n ei dalu amdanynt | 22 |
| | Datblygiadau cenedlaethol o ran y gweithlu | 23 |
| | Menter genedlaethol – Rheoli cost nyrsys asiantaeth | 24 |
| | Menter genedlaethol – Rheoli cost staff asiantaeth meddygol a deintyddol | 26 |

| | | |
|---|--|----|
| 4 | Bu inni nodi dwy her allweddol i wella'r broses o reoli'r gwariant ar staff asiantaeth | 28 |
| | Datblygu gwybodaeth Cymru gyfan i ddeall ac i reoli'r gwariant ar staff asiantaeth a'r defnydd ohonynt yn well | 29 |
| | Arweinyddiaeth mentrau i reoli'r gwariant ar staff asiantaeth a threfniadau staffio dros dro eraill yn y dyfodol | 30 |

Cyflwyniad

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru yn cyflogi bron i 80,000 o staff cyfwerth ag amser llawn, ac eithrio Ymarferwyr Cyffredinol a'r rheini a gyflogir yn uniongyrchol gan Bractisau Cyffredinol, a gwariodd £3.62 biliwn ar gyflogau yn 2017-18.

Ond mae hefyd angen i GIG Cymru ddefnyddio staff ychwanegol i ategu'r gweithlu amser llawn er mwyn iddo barhau i ddarparu gwasanaethau:

- pan fydd swyddi allweddol yn wag;
- pan fydd staff yn absennol oherwydd salwch, ar wyliau, neu'n absennol am reswm arall; neu
- pan fydd y galw am wasanaethau'n cynyddu oherwydd, er enghraifft, pwysau'r gaeaf.

Mae'r saith Bwrdd Iechyd Lleol a thair Ymddiriedolaeth y GIG (cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel cyrff iechyd yn yr adroddiad hwn) yn defnyddio gwasanaeth staff dros dro:

- drwy dalu goramser i'r staff parhaol er mwyn iddynt weithio sifftiau ychwanegol;
- drwy ddefnyddio banciau staff mewnol sydd fel rheol yn cynnwys staff a chanddynt gontractau parhaol â'r corff iechyd neu gorff iechyd cyfagos, yn ogystal â staff â chymwysterau addas y mae'n well ganddynt ddewis ble a phryd y maent yn gweithio;
- drwy ddefnyddio asiantaethau yn y sector preifat sy'n codi ffi am ddarparu staff; a
- thrwy ddefnyddio pobl sy'n ymrwmo i gontractau uniongyrchol â'r cyrff iechyd ar delerau ad hoc. Gall fod gan rai o'r bobl hyn gontractau parhaol o fewn y GIG hefyd.

Yn gyffredinol, mae staff sy'n gweithio ar sail dros dro yn costio mwy fesul sifft nag unigolion ar yr un radd sy'n gweithio dan gontract parhaol. Mae'r staff a ddarperir gan asiantaethau yn dueddol o fod yn fwy costus na staff dros dro eraill. Gyda'i gilydd, gwariodd cyrff y GIG yng Nghymru dros £160 miliwn ar staff asiantaeth yn 2016-17. Mae'r ffigur hwn dros bedair gwaith yn fwy na ffigur cyfatebol 2012-13. Mae'r gwariant ar staff asiantaeth yng ngwledydd eraill y DU wedi cynyddu'n sylweddol hefyd.

Mae maint a thwf cyflym y gwariant ar staff asiantaeth wedi creu cryn ddiddordeb ymhlith y cyfryngau a'r cyhoedd, nid lleiaf oherwydd y pwysau ariannol ar gyrff y GIG. Mae GIG Cymru wedi ymateb drwy gyflwyno mentrau cenedlaethol a lleol amrywiol i leihau'r galw ac i reoli'r costau.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif ffeithiau ynghylch defnydd cyrff y GIG yng Nghymru o staff asiantaeth, gan gynnwys:

- y gwariant;
- dadansoddiadau gan gyrff iechyd o'r rhesymau dros hyn;
- y mentrau cenedlaethol i reoli'r math hwn o wariant; a'r
- heriau sydd ar y gorwel.

Mae'r adroddiad, ynghyd â'r offeryn data a luniwyd gennym, yn ceisio:

- rhoi cyfle i ddarllenwyr ddod i ddeall y sefyllfa'n well a gwneud eu dadansoddiadau eu hunain; a
- hybu gwelliannau drwy rannu gwybodaeth am fentrau i ffrwyno gwariant ar staff asiantaeth a thynnu sylw at faterion i'r GIG eu hystyried pan fydd yn llunio mentrau i reoli gwariant ar staff asiantaeth yn y dyfodol.

Nid yw'n ceisio gwerthuso'r defnydd o staff asiantaeth nac effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i reoli costau. Defnyddir yr adroddiad hwn, a'r wybodaeth a gasglwyd tra'r oedd yn cael ei baratoi, i osod sylfaen ar gyfer y gwaith o gynllunio blaenraglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio cenedlaethol a lleol.

Gwariant ar staff asiantaeth
yn **2017-18**



£135.7 miliwn

Cyfran y gwariant ar
staff asiantaeth fesul grŵp
staff yn **2017-18**

Meddygol a deintyddol




Nyrsys a bydwagedd cofrestredig



Arall



Y gwariant ar staff asiantaeth
fel cyfran o gyfanswm gwariant y
GIG ar gyflogau yn **2017-18**



Mae tua **82%** o'r gwariant ar staff
asiantaeth yn **2018-19** yn
cyflenwi ar gyfer swyddi gwag

Rhan 1 – Mae gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf

Yn 2017-18, gwariwyd £135.7 miliwn ar staff asiantaeth, cynnydd o 171% dros saith mlynedd. (Gweler [Diffinio gwariant ar staff asiantaeth](#) on page 9). Ar ôl cyfnod sefydlog, cynyddodd yn sylweddol ar ôl 2013-14, gan gyrraedd uchafbwynt o £164.4 miliwn yn 2016-17. (Gweler [Gwariant ar staff asiantaeth](#) ar dudalen 10)

Ar gyfartaledd, mae cyrff iechyd Cymru wedi gwario bron i hanner eu gwariant ar staff asiantaeth ar staff meddygol a deintyddol ers 2014-15 a thraean arall ar nyrsys a bydwagedd. (Gweler [Dosbarthiad y gwariant ar staff asiantaeth](#) ar dudalen 13)

Cynyddodd y gwariant ar staff asiantaeth fel cyfran o gyfanswm y gwariant ar gyflogau o 1.6% o'r cyfanswm yn 2013-14 i 4.7% yn 2016-17, cyn disgyn i 3.7% yn 2017-18. (Gweler [Gwariant ar staff asiantaeth fel canran o gyfanswm y gwariant ar gyflogau](#) ar dudalen 14)

Mae'r twf mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant ar gyflogau wedi cynyddu'n gyflymach na'r twf yn niferoedd y staff dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd sydyn yn y gwariant ar staff asiantaeth. (Gweler [Y twf mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant ar gyflogau a niferoedd y staff](#) ar dudalen 16)

Ymhlith y ffactorau sydd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn gwariant ar staff asiantaeth mae:

- y cynnydd yn y cyfraddau fesul awr a godir gan asiantaethau ac unigolion sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y cyrff iechyd;
- y cynnydd yn y galw am wasanaethau;
- prinder sgiliau;
- yr anawsterau o ran recriwtio a chadw staff;
- yr angen i fodloni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016; a'r
- ffaith bod unigolion yn dewis gweithio drwy asiantaethau.

Ond ni cheir dadansoddiad cenedlaethol o'r graddau y mae pob un o'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at y cynnydd yn y gwariant ar staff asiantaeth. (Gweler [Ffactorau sydd wedi cyfrannu at y cynnydd yn y gwariant ar staff asiantaeth](#) ar dudalen 18)

Diffinio gwariant ar staff asiantaeth

Isod, nodir y diffiniad o 'wariant ar staff asiantaeth' a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn. Hwn yw'r diffiniad a geir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru 2018/017 'Canllawiau ar gyfer Ffurflenni Monitro Ariannol Misol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau 2018-19'. Fe'i defnyddir gan y Byrddau Iechyd Lleol (y byrddau) ac Ymddiriedolaethau'r GIG (yr ymddiriedolaethau) i adrodd am wariant ar staff asiantaeth a staff locwm (sy'n cael tâl uwch) drwy'r ffurflenni monitro ariannol misol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

Mae gwariant ar staff asiantaeth yn cynnwys:

- staff nad ydynt yn cael eu cyflogi gan fwrdd nac ymddiriedolaeth ac felly nad ydynt yn cael eu talu drwy'r gyflogres. Bydd hyn yn cynnwys staff a gyflogir drwy asiantaethau, unigolion hunangyflogedig ac ati.
- staff a gyflogir gan un o sefydliadau eraill y GIG sy'n ymgymryd â gwaith fesul sesiwn o fewn y bwrdd neu'r ymddiriedolaeth, ond nad ydynt yn cael eu talu drwy gyflogres y bwrdd neu'r ymddiriedolaeth y maent yn ymgymryd â'r gwaith ar ei gyfer/chyfer, ac sy'n cael tâl uwch.

Mae'r gwariant yn cynnwys:

- staff a gyflogir gan fwrdd neu ymddiriedolaeth sy'n ymgymryd â gwaith ychwanegol ar sail dros dro ar gyfer adran arall yn yr un bwrdd neu ymddiriedolaeth neu ar safle ysbyty arall sy'n rhan o'r un bwrdd neu ymddiriedolaeth;
- unrhyw staff a gyflogir ar sail dros dro neu ar gontract cyfnod penodol, ond sy'n cael eu talu drwy gyflogres bwrdd neu ymddiriedolaeth ar delerau ac amodau a bennir gan y bwrdd hwnnw neu'r ymddiriedolaeth honno.


Staff locwm 'sy'n cael tâl uwch' yw'r rheini y telir tâl uwch iddynt na chyfradd deiliad swydd barhaol.

Nid yw'r diffiniad uchod, nac unrhyw ddata a geir yn yr adroddiad hwn, yn cynnwys meddygon a deintyddion sy'n Ymarferwyr Cyffredinol oherwydd eu bod yn gontractwyr GIG annibynnol. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Bractisau Cyffredinol ychwaith.


Gwariant ar staff asiantaeth

Roedd y gwariant ar staff asiantaeth yn gymharol sefydlog tan 2013-14. Ar ôl hynny, cafwyd cynnydd sydyn, gyda'r gwariant yn cyrraedd uchafbwynt o £164.4 miliwn yn 2016-17.

Arddangosyn 1: cyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru ar staff asiantaeth rhwng 2010-11 a 2017-18




Ffynhonnell: Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru



Mae'r ddolen hon yn agor offeryn data a fydd yn caniatáu dadansoddi gwariant ar staff asiantaeth ym mhob corff iechyd yn ystod y cyfnod 2010-11 i 2017-18. I gael mynediad ato ewch i <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/gwariant-gig-cymru-ar-staff-asiantaeth>

Cafwyd gostyngiad yng nghyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth yn 2017-18, a hynny i £28.7 miliwn. Gostyngodd y gwariant ym mhob categori staff ac eithrio un.

Arddangosyn 2: Gwariant y GIG yng Nghymru ar staff asiantaeth fesul grŵp staff yn 2016-17 a 2017-18



Ffynhonnell: Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn gwariant yn y grŵp staff meddygol a deintyddol, sef gostyngiad o dros £17 miliwn. Cafwyd gostyngiad pellach o £2.4 miliwn yn y gwariant ar nyrsys a bydwreagedd asiantaeth. Fodd bynnag, roedd maint y gostyngiad yn amrywio'n helaeth o'r naill gorff iechyd i'r llall.



Mae'r ddolen hon yn agor offeryn data a fydd yn caniatáu dadansoddi newidiadau i'r gwariant ar wahanol grwpiau staff asiantaeth ymhob corff iechyd rhwng 2016-17 a 2017-18. I gael mynediad ato ewch i <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/gwariant-gig-cymru-ar-staff-asiantaeth>

Gall cynnydd mewn rhannau eraill o fil cyflogau'r GIG wrthbwysu'r gostyngiad yn y gwariant ar staff asiantaeth, ond ni ddarperir dadansoddiad o'r elfennau tâl amrywiadwy yn y ffurflenni monitro ariannol a gyflwynir gan y cyrff iechyd i Lywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl y gellir priodoli'r gostyngiadau yn y gwariant ar staff asiantaeth, yn rhannol, i'r ffaith bod newidiadau i'r dull o dalu am staff asiantaeth a staff locwm yn peri nad yw'r gwariant yn bodloni'r diffiniad o wariant ar staff asiantaeth a geir yn y ffurflenni monitro ariannol misol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.


Mae gweithgor cenedlaethol (Grŵp Effeithlonrwydd y Gweithlu Meddygol) yn arwain prosiect i wella cysondeb o ran codio tâl amrywiadwy staff locwm.

Dosbarthiad y gwariant ar staff asiantaeth

Mae cyrff iechyd yn defnyddio asiantaethau i ddarparu staff o bob math, ond gellir priodoli tua 80% o gyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth i feddygon a nyrsys.

Er bod cyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2014-15 a 2016-17, mae [Arddangosyn 3](#) yn dangos bod y gyfran sy'n cael ei gwario ar bob grŵp staff wedi aros fwy neu lai yr un fath.

Arddangosyn 3: dosbarthiad y gwariant ar staff asiantaeth fesul grŵp staff rhwng 2014-15 a 2017-18




Ffynhonnell: Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Y gwariant ar staff asiantaeth fel canran o gyfanswm y gwariant ar gyflogau

Yn 2010-11, roedd y gwariant ar staff asiantaeth yn gyfwerth â dim ond 1.7% o gyfanswm y gwariant ar gyflogau ar draws deg corff iechyd Cymru. Erbyn 2016-17, roedd y gyfran wedi cynyddu i 4.7%, cyn disgyn i 3.7% yn 2017-18.

Yn y rhan fwyaf o gyrff iechyd Cymru, cafwyd twf sylweddol yn y gwariant ar dâl asiantaeth fel cyfran o gyfanswm y gwariant ar gyflogau rhwng 2014-15 a 2016-17, cyn gostyngiad bychan yn 2017-18.

Arddangosyn 4: cyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth fel cyfran o gyfanswm y gwariant ar gyflogau yn chwe chorff iechyd mwyaf Cymru rhwng 2010-11 a 2017-18




Ffynhonnell: Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru



Mae'r ddolen hon yn agor offeryn data a fydd yn caniatáu dadansoddi cyfanswm gwariant ar staff asiantaeth fel canran o'r gwariant cyfan ar gyflogau ym mhob corff iechyd rhwng 2010-11 a 2017-18. I gael mynediad ato ewch i <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/gwariant-gig-cymru-ar-staff-asiantaeth>

Nid yng Nghymru yn unig y mae gwariant y GIG ar staff asiantaeth wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r lefelau hefyd yn uchel yn Lloegr a'r Alban. Mae maint y gwariant ar draws y Deyrnas Unedig yn wahanol, ond mae'r duedd o ran y gwariant ar staff asiantaeth fel cyfran o gyfanswm y gwariant ar gyflogau yn debyg.

Arddangosyn 5: cyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth fel cyfran o gyfanswm gwariant y GIG ar gyflogau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon rhwng 2012-13 a 2017-18



Sylwch: Nid yw data 2017-18 Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael hyd yma.

Ffynonellau: Data a dderbyniwyd ac a goladwyd gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ar sail ffurflenni a chyfrifon ariannol

Y twf mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant ar gyflogau a niferoedd y staff

Ar 30 Medi 2017, roedd y GIG yng Nghymru yn cyflogi bron i 80,000 o staff cyfwerth ag amser llawn, ac eithrio Ymarferwyr Cyffredinol a'r rheini a gyflogir yn uniongyrchol gan Bractisau Cyffredinol.

Dangosir cyfansoddiad y gweithlu yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gyrrff iechyd Cymru fesul grŵp staff ar 30 Medi 2017


| Grŵp staff | Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ar 30 Medi 2017 | Cyfran o'r gweithlu |
|--|---|---------------------|
| Staff meddygol a deintyddol | 6,321 | 8.1% |
| Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd | 29,524 | 37.9% |
| Staff gweinyddol ac ystadau | 17,384 | 22.3% |
| Staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol | 12,799 | 16.4% |
| Cynorthwywyr gofal iechyd a staff cymorth eraill | 9,704 | 12.5% |
| Staff ambiwlans | 2,084 | 2.7% |
| Staff anfeddygol eraill | 101 | 0.1% |
| Cyfanswm | 77,917 | 100% |

Ffynhonnell: Staff y GIG fesul grŵp staff a blwyddyn, StatsCymru

Cafwyd cynnydd o 7.5% yng ngweithlu'r GIG rhwng mis Medi 2010 a mis Medi 2017. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd cynnydd o 12.1% yn nifer y staff meddygol a deintyddol cyfwerth ag amser llawn, a chynnydd o 4.7% yn nifer y staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd.

Bu i gyfanswm y gwariant ar gyflogau gynyddu o £2.92 biliwn yn 2010-11 i £3.62 biliwn yn 2017-18, sef cynnydd o bron i 24% yn nhermau arian parod. Mae [Arddangosyn 7](#) yn dangos y twf mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant ar gyflogau ers 2010-11 a'i gymharu â'r cynnydd yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn. Mae'r graff yn dangos bod niferoedd y staff a chyfanswm y cyflogau wedi dechrau cynyddu o 2014-15, gyda chyfanswm y cyflogau mewn termau real yn cynyddu'n gyflymach na niferoedd y staff cyfwerth ag amser llawn.

Arddangosyn 7: cymhariaeth mewn termau real o nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a chyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru ar gyflogau rhwng 2010-11 a 2017-18



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Swyddfa Archwilio Cymru sy'n seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Nid yw codiad cyflog ymhlith staff ar gcontractau parhaol yn egluro'r twf yng nghyfanswm y gwariant ar gyflogau o'i gymharu â niferoedd y staff, fel y dangosir yn [Arddangosyn 7](#), a hynny oherwydd bod cyflogau staff y GIG wedi'u capio dros y blynyddoedd diwethaf. Er nad hwn yw'r unig esboniad posibl, mae'r twf yng nghyfanswm y cyflogau yn gyson â chynnydd sylweddol yn y gwariant ar staff dros dro, boed drwy asiantaethau neu o ffynonellau eraill.

Ffactorau sydd wedi cyfrannu at y cynnydd yn y gwariant ar staff asiantaeth

Gellir priodoli'r cynnydd yn y gwariant ar staff asiantaeth i lu o ffactorau sy'n cynnwys:

- y cynnydd yn y cyfraddau tâl fesul awr;
- y cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu;
- prinder sgiliau;
- yr anawsterau o ran recriwtio a chadw staff;
- y lefelau absenoldeb oherwydd salwch a'r cyfraddau salwch;
- yr angen i gydymffurfio â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016; a'r
- camau a gymerwyd yn Lloegr i leihau'r gwariant ar staff asiantaeth sydd wedi peri iddi fod yn fwy deniadol i asiantaethau ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar y farchnad yng Nghymru.

Cawsom wybod bod niferoedd cynyddol o feddygon a nyrsys yn dewis gweithio i asiantaethau neu weithio ar sail hunangyflogedig yn hytrach na chael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y ffaith nad yw cyflogau yn y sector cyhoeddus wedi cynyddu yn ffactor pwysig sydd wedi peri i bobl gofrestru gydag asiantaethau i gael sifftiau ychwanegol neu adael eu swyddi parhaol i weithio i asiantaethau.

Mae'r canfyddiadau a gyhoeddwyd yn adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol ar Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, '[Use of Agency Workers in the Public Sector](#)', a baratowyd yn 2017, yn awgrymu bod ffactorau eraill yn denu unigolion at waith asiantaeth, gan gynnwys:

- eu bod yn rhoi gwerth mawr ar weithio'n hyblyg a tharo gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gyda chyfle i ddewis a dethol sifftiau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion;
- eu bod yn anfodlon â'r amodau gweithio a'r llwythi gwaith yn y GIG;
- eu bod yn cael eu talu'n gyflymach gan fod asiantaethau fel rheol yn talu bob wythnos; a
- bod cenedlaethau iau'n rhoi llai o bwys ar sicrwydd swyddi a phensiynau, ac yn awyddus i gael seibiant gyrfa.

Rhan 2 – Mae tua 80% o'r gwariant ar staff asiantaeth yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag, ond mae'r wybodaeth am nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir yn gyfyngedig

Mae amcanestyniadau ariannol y cyrff iechyd yn dangos y byddant yn gwario £90 miliwn (77% o gyfanswm y gwariant rhagamcanol ar staff asiantaeth) i gyflenwi ar gyfer swyddi gwag yn 2018-19.

Yn ystod chwe mis cyntaf 2018-19, roedd tua 82% o gyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag, gyda'r rhan fwyaf o'r gwariant sy'n weddill yn cyflenwi ar gyfer gweithgareddau ychwanegol ac absenoldeb oherwydd salwch. (Gweler [Y rhesymau dros ddefnyddio staff asiantaeth yn 2018-19](#) ar dudalen 20).

Mae gan bob corff iechyd ddata am nifer y staff asiantaeth y maent yn eu defnyddio, a pham. Ond nid oes dadansoddiad ar gael o hyd ar gyfer Cymru gyfan sy'n dangos faint o feddygon, nyrsys a staff eraill sy'n cael eu cyflogi drwy asiantaethau, eu meysydd arbenigol, a'u graddau. Mae'r GIG yn datblygu trefniadau ar lefel Cymru gyfan i ddod i ddeall yn well sut y mae'n defnyddio nyrsys asiantaeth a staff asiantaeth meddygol, sef dau o'r meysydd gwariant mwyaf. (Gweler [Argaeledd gwybodaeth am y staff asiantaeth a ddefnyddir](#) ar dudalen 21)

Y rhesymau dros ddefnyddio staff asiantaeth yn 2018-19

Dim ond yn ddiweddar y mae GIG Cymru wedi dechrau dadansoddi ar lefel genedlaethol y rheswm dros bob achos lle cafodd staff asiantaeth eu defnyddio.

Mae sefyllfa ariannol sefydliadau unigol ac iechyd ariannol cyffredinol GIG Cymru yn cael eu monitro gan ddefnyddio'r ffurflenni ariannol misol a gyflwynir gan bob corff iechyd i Lywodraeth Cymru. Ers mis Ebrill 2018, mae'n ofynnol i'r cyrff iechyd roi dadansoddiad o'r rhesymau dros wario arian ar staff asiantaeth ar y ffurflenni ariannol hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r rheini y buom yn siarad â nhw pan oeddem yn paratoi'r adroddiad hwn yn hyderus mai'r angen i gyflenwi ar gyfer swyddi gwag oedd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r gwariant ar staff asiantaeth. Mae ffurflenni ariannol y cyrff iechyd yn cyfiawnhau'r hyder hwn:

- Roedd 77% o'r gwariant rhagamcanol ar staff asiantaeth yn 2018-19, yn ôl adroddiadau'r cyrff iechyd ar ddiwedd mis Ebrill 2018, yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag.
- Roedd 82% o'r £66.8 miliwn a wariwyd ar staff asiantaeth yn ystod chwe mis cyntaf 2018-19 yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag. Roedd 6% o'r gwariant ar staff asiantaeth yn gysylltiedig â'r angen i gyflenwi ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch, ac roedd 8% yn gysylltiedig â gweithgareddau ychwanegol.

Caiff swyddi gwag eu hadrodd ar lefel genedlaethol ar sail y swyddi 'a hysbysebir'. Mae GIG Cymru'n cydnabod nad yw'r data hyn am nifer a natur y swyddi gwag ond yn ffigurau procsi ar gyfer nifer wirioneddol y swyddi gwag ac nad ydynt yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa o ran swyddi gwag.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi pennu ffigur ar gyfer eu holl swyddi parhaol er mwyn gosod llinell sylfaen i fesur nifer y swyddi gwag. O adrodd am gyfraddau'r swyddi gwag ar sail y swyddi 'a hysbysebir', gall arwain at:

- gyfrif swyddi gwag ddwywaith oherwydd y gall swyddi gwag gael eu hysbysebu fwy nag unwaith cyn eu llenwi; a
- pheidio ag adrodd am swyddi gwag os nad eir ati i recriwtio iddynt.

Er gwaethaf y cysylltiad rhwng gwariant ar staff asiantaeth a swyddi gwag, bu inni ganfod nad oes cydberthynas rhwng newidiadau o fis i fis yn nifer y swyddi gwag a hysbysebir ac amrywiadau cyfatebol yn y gwariant ar staff asiantaeth.

Argaeledd gwybodaeth am y staff asiantaeth a ddefnyddir

Mae'r cyrff iechyd yn cadw gwybodaeth am nifer y staff asiantaeth y maent yn eu defnyddio, pwy yw'r unigolion hyn, ac at ba ddiben y maent yn cael eu defnyddio.

Ond nid yw'r data hyn yn cael eu casglu mewn system a ddefnyddir ar draws y GIG, ac nid ydynt ychwaith yn cael eu rhannu â chyrff iechyd eraill. Oherwydd nad yw'r cyrff yn rhannu gwybodaeth, mae perygl y gallai unigolion weithio gormod o oriau ar draws mwy nag un bwrdd iechyd, ac fe allai hyn beryglu diogelwch cleifion. Mae hefyd yn anoddach i GIG Cymru atal arferion twyllodrus, fel cyflogeion y GIG sy'n gweithio i asiantaethau tra maent yn absennol o'u gwaith oherwydd salwch.

Mae'r data a baratoir ar lefel genedlaethol ynghylch y defnydd o staff asiantaeth yn gyfyngedig, ond maent yn datblygu. I gael gwell darlun o'r defnydd o feddygon a nyrsys asiantaeth, sef dau o'r meysydd lle ceir y gwariant mwyaf ar staff asiantaeth:

- mae data am y gwariant ar nyrsys asiantaeth sy'n cael eu casglu gan un o is-grwpiau'r Grŵp Llywio Capasiti Staff Nyrsio Dros Dro yn cael eu haddasu i staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfer pob cyflenwr staff asiantaeth ers mis Ebrill 2017. Mae hyn yn rhoi gwell darlun o nifer y staff asiantaeth sy'n cael eu defnyddio, yn ogystal â'u cost. Fodd bynnag, caiff y data eu casglu'n annibynnol ar y ffurflenni monitro ariannol a gyflwynir gan y cyrff iechyd i Lywodraeth Cymru ac nid ydynt yn gyson â'r gwariant ar staff asiantaeth a adroddir gan Lywodraeth Cymru.
- mae'r cyrff iechyd yn cyflwyno data ynghylch eu defnydd o feddygon locwm ac asiantaeth i Lywodraeth Cymru yn sgil cyflwyno Cylchlythyr Iechyd Cymru 2017-042 'Rhoi sylw i effaith defnydd GIG Cymru o staff asiantaeth a locwm meddygol a deintyddol' ym mis Hydref 2017 (gweler [Menter genedlaethol – Rheoli cost staff asiantaeth meddygol a deintyddol](#) ar dudalen 26 i gael manylion am y Cylchlythyr). Fodd bynnag, mae'r data'n adlewyrchu'r 'archebion' a wnaed yn ystod y mis yn hytrach na'r gwariant yr aethpwyd iddo. Gall archeb gael ei chyflawni, a gellir talu amdani, dros gyfnod sy'n para mwy na mis, neu mae'n bosib na chaiff archeb ei chyflawni'n llwyr os yw'n archeb 'yn ôl y galw'.

Rhan 3 – Mae GIG Cymru yn ceisio Ileihau'r galw am staff asiantaeth a rheoli'r pris y mae'n ei dalu amdanynt

Pan fyddant yn ceisio lleihau'r gwariant ar staff asiantaeth, bydd cyrff GIG Cymru fel rheol yn defnyddio cyfuniad o ddau dull:

- lleihau'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth; a
- thalu llai nag o'r blaen i'w defnyddio, os oes rhaid iddynt wneud hynny.


Yn gyffredinol, dim ond os nad oes dewis arall ar gael y bydd rheolwyr y GIG yn defnyddio staff asiantaeth. Mae mentrau a gyflwynwyd mewn cyrff iechyd unigol i leihau'r galw am staff asiantaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar recriwtio a chadw mwy o staff, lleihau absenoldeb oherwydd salwch, a gwella'r broses o reoli rotâu a chynllunio swyddi.

Mae GIG Cymru wedi cyflwyno nifer o fentrau cenedlaethol o ran y gweithlu i geisio creu delwedd fwy deniadol o'r gwasanaeth iechyd fel cyflogwr a, thrwy hynny, leihau'r galw am staff asiantaeth. (Gweler [Datblygiadau cenedlaethol o ran y gweithlu](#) ar dudalen 23)

Mae'r galw am staff asiantaeth wedi hybu cystadleuaeth rhwng cyrff iechyd a chynyddu cyfraddau tâl staff asiantaeth, yn enwedig mewn meysydd lle ceir prinder sgiliau. Mae cyrff iechyd yn cydweithio drwy weithgorau Cymru gyfan i reoli cost defnyddio nyrsys asiantaeth a staff asiantaeth meddygol. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi sylw i ddwy fenter genedlaethol:

- y camau a gymerwyd yn 2017 i gyflwyno cyfraddau tâl wedi'u capio ar gyfer asiantaethau nyrsio, gan ganolbwyntio ar ddileu'r defnydd o asiantaethau heb gontract, a hynny dan arweiniad y Grŵp Llywio Capasiti Staff Nyrsio Dros Dro. (Gweler [Menter genedlaethol – Rheoli cost nyrsys asiantaeth](#) ar dudalen 24)
- y trefniadau a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2017 i leihau'r defnydd o staff asiantaeth a locwm meddygol a deintyddol, a'r gost, a hynny ar sail gwaith manwl a wnaed gan Grŵp Effeithlonrwydd y Gweithlu Meddygol. (Gweler [Menter genedlaethol – Rheoli cost staff asiantaeth meddygol a deintyddol](#) ar dudalen 26)



Mae'r ddolen hon yn agor offeryn data a fydd yn caniatáu dadansoddi gwariant ar staff asiantaeth Meddygol a Deintyddol a Bydwreigiaeth yn y chwe chorff iechyd mwyaf rhwng 2012-13 a 2017-18. I gael mynediad ato ewch i <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/gwariant-gig-cymru-ar-staff-asiantaeth> 

Datblygiadau cenedlaethol o ran y gweithlu

Ymhlith y datblygiadau a'r mentrau cenedlaethol i geisio creu delwedd fwy deniadol o GIG Cymru fel cyflogwr, ac felly i leihau'r galw am staff asiantaeth, mae:

- y camau diweddar i greu'r awdurdod iechyd arbennig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n ysgwyddo'r swyddogaethau a ganlyn: addysg a hyfforddiant, datblygu a moderneiddio'r gweithlu, datblygu arweinyddiaeth, cynllunio'r gweithlu'n strategol, gwybodaeth am y gweithlu, gyrfaedd ac ehangu mynediad.
- yr ymgyrch¹ i ddenu gweithwyr iechyd proffesiynol o'r radd flaenaf drwy hybu Cymru fel lle gwych i feddygon a deintyddion hyfforddi ynddo. Mae'r ymgyrch yn hyrwyddo mentrau fel :
 - y polisi [Hyfforddiant Llai nag Amser Llawn](#)[☞];
 - cynllun [Trac Academaidd Clinigol Cymru](#) ; a'r
 - [contract addysg](#)[☞] newydd ar gyfer meddygon iau sy'n neilltuo amser yn ystod yr wythnos waith ar gyfer cyfleoedd dysgu i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gyrfa, y cynllun cyntaf o'i fath yn y DU.
- yr ymgyrch genedlaethol [Hyfforddi Gweithio Byw](#)[☞] a lanswyd yn 2016 i hyrwyddo Cymru fel lle deniadol i feddygon teulu a meddygon eraill weithio ynddo.
- y cytundebau tâl diweddar ar gyfer gweithlu GIG Cymru. Mae'r cytundebau tâl y cytunwyd arnynt ar gyfer meddygon, nyrsys a staff eraill y GIG yn cynnwys amryw o fesurau tâl a mesurau eraill i ddarparu telerau ac amodau gwell i staff GIG Cymru a, thrwy hynny, wella'r cyfraddau recriwtio a chadw staff.

¹ <https://www.walesdeanery.org/future-doctors-and-dentists---come-and-train-wales/future-doctors-and-dentists---come-and-train>[☞]

Menter genedlaethol – Rheoli cost nyrsys asiantaeth


Mae cytundebau fframwaith ar waith ers 2006 i gyflenwi nyrsys asiantaeth. Mae trefniadau o'r fath yn sicrhau nad oes angen i bob corff iechyd gynnal ymarferion caffael cyn defnyddio staff asiantaeth. Daeth Cytundeb Fframwaith Cyfredol Cymru i gyflenwi staff asiantaeth i rym ar 1 Ebrill 2017 ac roedd yn cyflwyno cyfraddau tâl fesul awr wedi'u capio ar gyfer asiantaethau nyrsio. Bydd y cytundeb yn para am 24 mis, gydag opsiwn i'w estyn am ddwy flynedd arall.

Cyfeirir at asiantaethau sy'n cyflenwi nyrsys drwy gytundeb fframwaith fel asiantaethau dan gontract. Cyfeirir at asiantaethau nad ydynt yn rhan o gytundeb fframwaith fel asiantaethau heb gontract ac, yn gyffredinol, maent yn codi tâl uwch fesul awr na'r asiantaethau dan gontract.

Sefydlwyd y Grŵp Llywio Capasiti Staff Nyrsio Dros Dro yn 2015 i bwysu a mesur sut y gall cyrff iechyd Cymru gydweithio i fynd i'r afael â'r pryderon cynyddol ynghylch costau uchel nyrsys asiantaeth a'r cynnydd yn y gwariant arnynt. Mae'r grŵp yn ceisio dileu'r defnydd o asiantaethau heb gontract i ateb y galw am nyrsys dros dro o fewn GIG Cymru.

Mae **Arddangosyn 8** yn dangos bod cyfran y gwariant ar nyrsys asiantaeth wedi gostwng. Bu i'r gwariant ar staff asiantaethau heb gontract ostwng ledled Cymru o 65% ar ddechrau blwyddyn ariannol 2016-17 i gyfartaledd o 14% ym mlwyddyn ariannol 2017-18.

Arddangosyn 8: Cyfran y gwariant ar nyrsys asiantaeth a wariwyd gydag asiantaethau heb gontract ac asiantaethau dan gontract




Sylwch: Nid oes data ar gael ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2017 a mis Mawrth 2017.
Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Dywedwyd wrthym fod dwy brif ffactor wedi gwneud cyfraniad hollbwysig tuag at gyflawni'r gostyngiad sylweddol a chyson hwn yn y defnydd o asiantaethau nyrsio heb contract:

- ymrwymiad y cyrff iechyd i ddefnyddio asiantaethau sy'n rhan o'r cytundeb fframwaith cyhyd ag y bob modd ac i beidio â mynd tu hwnt i'r cyfraddau wedi'u capio a geir yn y cytundeb; a
- phennu cyfraddau wedi'u capio y tybir eu bod yn dda ond nid yn ormodol i sicrhau bod modd i'r cytundeb fframwaith ddarparu'r nyrsys asiantaeth sydd eu hangen.

Er gwaethaf y llwyddiant o ran gostwng cyfran y gwariant ar asiantaethau heb contract, mae **Arddangosyn 9** yn dangos bod y gwariant ar nyrsys a bydwagedd asiantaeth yn ystod dau chwarter cyntaf 2018-19 yn uwch nag yr oedd yn ystod y cyfnodau cyfatebol yn 2016-17 a 2017-18. Nid oes data ar gael sy'n egluro'n llwyr y rhesymau dros y cynnydd yn y gwariant.

Arddangosyn 9: y gwariant ar nyrsys a bydwagedd asiantaeth rhwng mis Ebrill 2016 a mis Medi 2018



Ffynhonnell: Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Menter genedlaethol – Rheoli cost staff asiantaeth meddygol a deintyddol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru 2017-042 'Rhoi sylw i effaith defnydd GIG Cymru o staff asiantaeth a locwm meddygol a deintyddol' (y Cylchlythyr) ym mis Hydref 2017.

Mae'r Cylchlythyr yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer:

'rhaglen o gamau gweithredu cyson wedi'u cydlynu ar draws GIG Cymru gyda'r nod o ostwng defnydd a gwariant ar staff asiantaeth a locwm, gan barhau i ddarparu gwasanaeth diogel a chynaliadwy ar draws Cymru'.

Nod y rhaglen yw:

'annog pobl i ddychwelyd i farchnad lafur y GIG, gan wella cyflenwad rheolaidd y gweithlu ac ansawdd a chysondeb y gofal i gleifion; sicrhau tegwch a thryloywder systemau gwobrwyo a lleihau'r gystadleuaeth cyflogau mewnol; a gostwng gwariant cyffredinol wrth i ni ganolbwyntio ar yr achosion sylfaenol'.

Lluniwyd y Cylchlythyr gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â GIG Cymru, gan ystyried y gwaith manwl a wnaed gan Grŵp Effeithlonrwydd y Gweithlu Meddygol. Sefydlwyd y grŵp hwn yn 2017, ac mae ganddo nodau ac amcanion a ddylai, o'u cyflawni, lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon asiantaeth ar draws GIG Cymru, a chost y meddygon hynny. Mae aelodau'r grŵp hwn yn dod o gyrrff iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae'r Cylchlythyr yn amlinellu fframwaith rheoli cenedlaethol o derfynau a thargedau ar gyfer defnyddio staff asiantaeth a locwm a'r gwariant arnynt, gan ddiffinio'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r cyrff iechyd, ac amlinellu trefn rheoli perfformiad ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol.


Un o brif nodweddion y fframwaith rheoli yw'r capiau pris a gyflwynir ar gyfer pob gweithiwr asiantaeth meddygol a deintyddol. Mae'r fframwaith yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i'r cyrff iechyd fynd tu hwnt i'r capiau pris dan amgylchiadau penodedig. Ni chaniateir gwneud hyn yn achos staff asiantaethau nyrsio.

Mae'r Cylchlythyr wedi gwella'r rheolaethau o ran awdurdodi gwariant. Ni ellir ond mynd tu hwnt i'r capiau ar ôl defnyddio'r prosesau uwchgyfeirio mewnol sy'n peri iddi fod yn ofynnol awdurdodi'r gwariant ar lefel weithredol ar ôl cynnal asesiad risg cadarn o'r effaith ar ddiogelwch cleifion.

Mae'r Cylchlythyr yn cyfeirio at sefydlu Uned Gyflawni'r Gweithlu i ddarparu capasiti canolog i graffu ar gynlluniau, gan bennu a rhannu arferion effeithiol ac ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â materion neu flaenoriaethau penodol. Byddai Uned Gyflawni'r Gweithlu hefyd yn dadansoddi'r ffurflenni data misol a gyflwynir gan y cyrff iechyd ynghylch y defnydd o staff asiantaeth meddygol a deintyddol, fel y nodir yng Nghylchlythyr 2017. Nid oedd Uned Gyflawni'r Gweithlu wedi'i sefydlu pan ddaeth ein gwaith maes i ben.

Mae **Arddangosyn 10** yn dangos bod y gwariant ar weithwyr asiantaeth meddygol a deintyddol wedi gostwng ers cyflwyno'r Cylchlythyr ym mis Tachwedd 2017. Fodd bynnag, oherwydd prinder data, nid oes modd i GIG Cymru briodoli'r gostyngiad yn y gwariant yn llwyr i effaith y Cylchlythyr. Gall ffactorau eraill fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn, fel defnyddio llai o staff a defnyddio datrysiadau staffio dros dro eraill.

Arddangosyn 10: y gwariant ar staff asiantaeth meddygol a deintyddol rhwng mis Hydref 2016 a mis Medi 2018



Ffynonellau: Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, a Llywodraeth Cymru

Rhan 4 – Bu inni nodi dwy her allweddol i wella’r broses o reoli’r gwariant ar staff asiantaeth

Nid yw’r adroddiad hwn yn ceisio gwerthuso effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i reoli’r defnydd o staff asiantaeth. Fodd bynnag, rydym wedi nodi dwy ffactor sy’n allweddol yn ein barn ni i ategu’r broses o reoli’r gwariant ar staff asiantaeth yng nghyd-destun ehangach y trefniadau staffio dros dro ar draws GIG Cymru.

- 1 I ddod i ddeall yn well yr hyn sydd wrth wraidd y gwariant ar staff asiantaeth, mae ar GIG Cymru angen data cyson a chymaradwy ar lefel Cymru gyfan ynghylch:
 - nifer, natur a chost y staff asiantaeth a ddefnyddir;
 - effaith newidiadau o ran gwariant ar staff asiantaeth ar gostau trefniadau staffio dros dro eraill, fel goramser a banciau staff mewnol. (Gweler [Datblygu gwybodaeth Cymru gyfan i ddeall ac i reoli’r gwariant ar staff asiantaeth a’r defnydd ohonynt yn well](#) ar dudalen 29)
- 2 Mae’r gweithgorau a sefydlwyd gan GIG Cymru i leihau costau nyrsys asiantaeth a staff asiantaeth meddygol yn cyflawni llawer o’r hyn yr aethant ati i’w gyflawni. Ond i gyflawni’r camau nesaf i reoli’r gwariant ar staff asiantaeth, mae disgwyl y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd mewn ffordd gyson ledled Cymru. I wneud hyn, bydd rhaid bod gan brosiectau i reoli’r gwariant ar staff asiantaeth a threfniadau staffio dros dro eraill arweinyddiaeth gref a chapasiti i roi newid ar waith yn ddi-oed. (Gweler [Arweinyddiaeth mentrau i reoli’r gwariant ar staff asiantaeth a threfniadau staffio dros dro eraill yn y dyfodol](#) ar dudalen 30)

Datblygu gwybodaeth Cymru gyfan i ddeall ac i reoli'r gwariant ar staff asiantaeth a'r defnydd ohonynt yn well

Mae gwybodaeth am gostau staff asiantaeth a'r defnydd ohonynt ar lefel genedlaethol yn gyfyngedig. Cedwir data gan sefydliadau unigol, ond nid yw'n rhwydd cael gafael arnynt ar ffurf gyson.

Rydym yn credu bod angen mynd ati i ddatblygu ymhellach ddwy thema sy'n gysylltiedig â data i reoli'r gwariant ar staff asiantaeth yn fwy effeithiol ar lefel genedlaethol.

1

Y gallu i gael mynediad at ddata cyson a chymaradwy a gedwir gan sefydliadau unigol y GIG, a'u rhannu, ar lefel Cymru.

Bydd hyn yn sicrhau bod modd cynhyrchu gwybodaeth sy'n ddigon manwl i ddeall ac i egluro:

- faint o staff asiantaeth a ddefnyddir;
- pa mor aml a pha mor rheolaidd y cânt eu defnyddio;
- pa swyddi y maent yn eu llenwi;
- y rheswm dros fod angen staff o'r fath; a'r
- gost.

Gallai gwybodaeth o'r fath osod sylfaen ar gyfer y gwaith o gynllunio'r gweithlu ar draws GIG Cymru, a gwella'r gwaith hwnnw'n sylweddol.

2

Y gallu i asesu data am y gwariant ar staff asiantaeth, a'r defnydd ohonynt, yng nghyd-destun costau trefniadau staffio dros dro eraill.

Gallai gostyngiad yn y gwariant ar staff asiantaeth, neu'r defnydd ohonynt, arwain at gynnydd mewn meysydd staffio dros dro eraill, fel goramser a gwaith banc mewnol.

Mae angen i GIG Cymru allu gwerthuso unrhyw ostyngiad yn y gwariant ar staff asiantaeth a deall yn llwyr unrhyw newidiadau a ddaw yn sgil hynny o ran y gwariant ar drefniadau staffio dros dro eraill.

Arweinyddiaeth mentrau i reoli'r gwariant ar staff asiantaeth a threfniadau staffio dros dro eraill yn y dyfodol

Mae'r Grŵp Llywio Capasiti Staff Nyrsio Dros Dro a Grŵp Effeithlonrwydd y Gweithlu Meddygol wedi gwneud cyfraniadau cadarnhaol tuag at leihau'r gwariant ar staff asiantaeth ac maent yn cyflawni llawer o'r hyn yr aethant ati i'w gyflawni. Mae'r grwpiau'n dibynnu'n helaeth ar ymrwymiad yr aelodau ac ar waith partneriaeth. Ond, ar brydiau, mae'r ffactorau a ganlyn yn llesteirio'r cynnydd o ran llunio newidiadau a'u rhoi ar waith:

- anawsterau o ran dod i gonsensws cyn gwneud penderfyniadau; a
- phrinder staff i ymgymryd â'r gwaith tu allan i gyfarfodydd y grwpiau.

Yn ein barn ni, mae angen newid sylweddol i roi prosiectau ar waith a fydd yn canolbwyntio ar reoli'r gwariant ar staffio dros dro, a hynny yn gyflymach ac yn fwy cyson.

Bydd ar unrhyw brosiectau cenedlaethol a sefydlir yn y dyfodol i reoli'r gwariant ar staff asiantaeth a staff dros dro eraill, fel datblygu capasiti banciau staff a'r defnydd ohonynt, angen:

- arweinyddiaeth ar lefel ddigon uchel ac aelodau a chanddynt ddigon o awdurdod i wneud penderfyniadau anodd ac i roi newid ar waith mewn ffordd gyson ar draws GIG Cymru i gyd;
- y cymorth ariannol, dynol a thechnolegol sydd eu hangen i ategu ac i gyflawni'r gwaith; a
- strwythur sy'n cydweddu'n agos ag ystyriaethau eraill o ran cynllunio'r gweithlu.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru